# Taflen Gyngor ar Frech/Twymyn

Mae eich plentyn wedi cael ei weld yn yr Adran Achosion Brys (ED) oherwydd pryderon ynghylch twymyn a/neu frech.  Tra roeddynt yma, rydym wedi arsylwi ar eich plentyn ac mae ef/hi wedi cael archwiliad gan ein meddygon, a phan oeddynt yn cael eu rhyddhau, roeddem yn teimlo bod eich plentyn yn ddigon iach i fynd adref. Mae twymyn a/neu frech yn broblem gyffredin iawn yn ystod plentyndod ac fel arfer, heintiau firaol diniwed sy’n dueddol o’u hachosi. Fel arfer maent yn setlo gydag amser.

**Mae salwch mwy difrifol fel llid yr ymennydd yn anghyffredin ond gall ddechrau mewn ffordd debyg.**
O ganlyniad, mae'n hynod bwysig eich bod yn arsylwi'ch plentyn yn ofalus gartref. Bydd yn rhaid i chi ddod yn ôl i'r ysbyty os oes gennych unrhyw bryderon.
Cadwch lygad allan am yr arwyddion canlynol:

- Mae eich plentyn yn cael ffit
- Mae gan eich plentyn frech sy'n newid neu'n lledaenu, brech nad yw'n diflannu pan fydd gwydr yn cael ei bwyso arno
- Mae’ch plentyn yn mynd yn fwy anniddig ac nid oes modd eu cysuro NEU mae’n gysglyd iawn ac yn anodd ei ddeffro.
- Mae eu dwylo a’u traed yn oer.
- Mae eu croen yn edrych yn frith.
- Mae ganddynt anystwythder yn eu gwddf.
- Nid ydynt yn hoffi'r golau.
- Nid ydynt yn well pan mae eu tymheredd yn dod i lawr
- Maent yn ymddangos wedi dadhydradu/sych gyda man meddal suddedig, ceg sych, llygaid suddedig, dim dagrau

**Os bydd unrhyw un o'r arwyddion yma’n yn ymddangos, ffoniwch a siaradwch ag un o'n nyrsys neu feddygon. Os nad oes modd i chi gysylltu â ni, yna ewch i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.**

Mae'n bwysig mynd i edrych ar eich plentyn yn ystod y nos.  Edrychwch arnynt cyn i chi fynd i'r gwely ac yna gosodwch eich larwm er mwyn mynd i edrych arnynt ychydig oriau yn ddiweddarach.  Yn aml mae plant yn gwaethygu yn ystod y nos tra bydd pawb yn cysgu.

| Pethau y dylech eu gwneud | Pethau na ddylech eu gwneud |
|---|---|
| • Cynnig diod yn rheolaidd, os yw'r plentyn yn cael ei fwydo o'r fron, parhewch i fwydo ar y fron.<br>• Os yw'ch plentyn yn ymddangos yn ofidus neu'n sâl rhowch **unai** Paracetamol **neu** Ibuprofen iddynt er mwyn dod â'u tymheredd i lawr.<br>• Os nad yw'ch plentyn yn ymateb i un ohonynt, ystyriwch roi'r llall iddynt | • Ni argymhellir dabio eich plentyn gyda sbwng lled gynnes fel modd o drin twymyn.<br>• Peidiwch â rhoi gormod o ddillad am blentyn sydd â thwymyn na'u lapio - gwisgwch nhw fel y byddech fel arfer.<br>• Os yw'ch plentyn yn ymddangos yn iach ac yn hapus peidiwch â rhoi Paracetamol nac Ibuprofen iddynt<br>• Peidiwch â rhoi Paracetamol ac Ibuprofen ar yr un pryd |

Peidiwch ag oedi cyn gofyn unrhyw gwestiynau i'n staff cyn i chi adael**.**

**Os yw'r dwymyn yn para am 5 diwrnod, gofynnwch i'ch meddyg teulu edrych ar eich plentyn.**
**Os ydych yn pryderu am gynnydd eich plentyn, neu os nad ydynt wedi gwella o fewn 2-3 diwrnod, rydym yn eich cynghori i gysylltu â'ch Meddyg Teulu neu fynd i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor (nid Uned Mân Anafiadau).**

**Os ydych yn pryderu o gwbl am eich plentyn, cysylltwch â'r Adran Achosion Brys berthnasol:**
**Ysbyty Athrofaol y Faenor: 01633 493287**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**